# Oddi ar y Silff: Pecyn Cymorth ar gyfer Trosglwyddo, Ailddefnyddio a Gwaredu Moesegol



Museums Association

# Cynnwys


Rhagair

Cyflwyniad

Terminoleg

01 Siart lif ar gyfer gwaredu →

02 Cyn i chi ddechrau – cwestiynau i'w hystyried →

03 Sefydlu trefn ar gyfer dad-dderbynodi →

04 Dewis eitemau i'w dad-dderbynodi →

05 Dulliau trosglwyddo, ailddefnyddio neu waredu →

# Rhagair

“Bwriad y pecyn cymorth hwn yw helpu gweithwyr amgueddfeydd i fynd i’r afael â’r her sy’n ein hwynebu wrth i’n casgliadau dyfu a ninnau’n mynd ati i waredu eitemau. Mae’n cydnabod bod risgiau i waith o’r fath, a bod angen eu deall a’u rheoli’n ofalus ond, yn aml, mae gwneud dim yn fwy o risg. Wrth i gasgliadau barhau i dyfu, mae’r storfeydd yn llenwi ac ôl troed carbon ein casgliadau’n cynyddu: mewn argyfwng hinsawdd, mae peidio â gweithredu yn anghyfrifol.

Mae bron i ugain mlynedd ers i Gynhadledd Cyfarwyddwyr yr Amgueddfeydd Cenedlaethol gyhoeddi adroddiad o’r enw “Too Much Stuff”. Mae pymtheng mlynedd ers i Nick Merriman rybuddio “ein bod yn parhau i weithio mewn ffordd anghynaliadwy mewn perthynas â chasgliadau amgueddfeydd”. Fodd bynnag, er bod y sector yn cytuno’n gyffredinol bod gwaredu’n bwysig er mwyn rheoli casgliadau’n effeithiol, rydym yn dal i gasglu mwy nag yr ydym yn ei waredu, gan beryglu cynaliadwyedd hirdymor ein casgliadau a’n sefydliadau.

Gobeithio y bydd y pecyn cymorth diwygiedig hwn yn galluogi rhagor o bobl i gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod ein casgliadau’n cael eu defnyddio’n effeithiol, yn cael gofal da ac yn cael eu rheoli’n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.”

Michael Terwey, Cyfarwyddwr Ymgysylltu â’r Cyhoedd ac Ymchwil, Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Alban a Chadeirydd Pwyllgor Moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd.

Er mwyn i amgueddfeydd fod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn amgylcheddol, ac yn berthnasol i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn yr 21ain ganrif, mae'n rhaid inni fynd ati ar unwaith, mewn ffordd ragweithiol i reoli ac adolygu casgliadau.

Mae rheoli casgliadau mewn modd cynaliadwy yn golygu trosglwyddo, gwaredu, ailddefnyddio a dad-dderbynodi eitemau mewn modd moesegol fel rhan o'n gwaith o ddydd i ddydd a gwneud hynny ar fyrder. Rhaid i amgueddfeydd chwarae eu rhan i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd er budd cymdeithas trwy reoli casgliadau. Mae'n bosib bod storfeydd amgueddfeydd yn cynnwys llawer o eitemau sydd heb lawer o werth diwylliannol na gwerth ar gyfer ymchwil.

Os nad yw'r eitemau hyn yn cael eu defnyddio, mae'n bwysig bod adnoddau a gofod yn cael eu hailgyfeirio at rannau eraill o'r casgliad.

Mae amgueddfeydd yn cadw eu casgliadau dan ymddiried ar gyfer y cyhoedd ac mae arnynt gyfrifoldeb i'w rheoli a'u gwarchod i'w defnyddio yn awr ac yn y dyfodol. Yn ogystal, mae ar amgueddfeydd gyfrifoldeb i sicrhau bod eu casgliadau'n dal yn berthnasol a bod modd cadw trefn arnynt. Mae'n hanfodol tynnu eitemau o gasgliadau amgueddfeydd er mwyn sicrhau bod modd cynnal a chreu casgliadau perthnasol a deinamig, gan osgoi dod yn storfa barhaol ar gyfer eitemau nad ydynt bellach yn diwallu anghenion y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Rydym wedi creu'r canllaw hwn i helpu pawb sy'n gweithio mewn amgueddfeydd a gyda nhw i fynd ati'n hyderus i ddad-dderbynodi eitemau o'u casgliadau yn llwyddiannus a moesegol gan wneud hynny mewn cydweithrediad â'r cyhoedd a chymunedau.

Er mwyn gwneud hynny, mae'n ofynnol i weithwyr amgueddfeydd gadw at **God Moeseg** Cymdeithas yr Amgueddfeydd, dilyn y broses sefydledig a **safon Spectrum**, arfer barn wybodus a bod yn ymwybodol o'u sgiliau, eu gwybodaeth a'u harbenigedd eu hunain ac arbenigedd y sector ehangach a'n cymunedau.

Gydag ymwybyddiaeth o'r rhain, cewch eich grymuso i lunio casgliad ystyrlon i'w ddefnyddio i'r dyfodol, ac i holi eraill am eu barn a'u harbenigedd os bydd hynny'n help i'r broses waredu.

# Cyflwyniad

# Terminoleg

Mae'r canllaw hwn yn cyfeirio at drosglwyddo, ailddefnyddio a gwaredu eitemau o gasgliadau a gafodd eu derbynodi gan amgueddfeydd, gan ddefnyddio'r diffiniad o dderbynodi a roddir gan yr Ymddiriedolaeth Casgliadau yn y safon Spectrum. Dewiswyd y termau hyn i adlewyrchu'r ffyrdd amrywiol y gall eitemau adael casgliad amgueddfa ar ôl eu dad-dderbynodi'n ffurfiol. Dylid cymhwyso'r broses hon i gasgliadau sydd heb eu derbynodi hefyd e.e. casgliadau cyffwrdd a benthyciadau, lle dylid ei dilyn â diwydrwydd dyladwy, gan wneud penderfyniadau ffurfiol a chofnodi.

**Derbynodi** – Caiff eitemau eu hychwanegu'n ffurfiol at gasgliad yr amgueddfa trwy ei phroses gaffael a derbynodi.

**Dad-dderbynodi** – Penderfyniad ffurfiol corff llywodraethu amgueddfa i dynnu eitem o'r casgliad sydd wedi'i dderbynodi.

**Trosglwyddo** – Y cyfle i amgueddfeydd drosglwyddo perchnogaeth eitem sydd wedi'i dad-dderbynodi i amgueddfa neu sefydliad cyhoeddus arall yn y parth cyhoeddus neu un sy'n cynnig mynediad rheolaidd i'r cyhoedd.

**Ailddefnyddio** – Y cyfle i amgueddfeydd ailddefnyddio neu ailgylchu eitemau o'r casgliad a dderbynodwyd – naill ai trwy adfer eitemau i'w diben gwreiddiol, neu trwy ganfod defnydd newydd arloesol ar eu cyfer, e.e. eu cynnwys mewn gwaith celf newydd.

**Dinistrio** – Datgymalu neu daflu eitemau sydd wedi'u dad-dderbynodi. Gall y dulliau hyn fod yn foesegol o dan rai amgylchiadau, ond mae angen eu hystyried yn ofalus.

**Adfer (Restitution)** – Mae hyn yn cyfeirio at y broses o adfer deunydd diwylliannol i'w berchnogion gwreiddiol ond gall gynnwys mwy na hynny ac fe'i disgrifir yn gliriach yn nogfen Cyngor Celfyddydau Lloegr, Restitution and Repatriation: A Practical Guide for Museums in England ac yn nogfen Cymdeithas yr Amgueddfeydd, Canllawiau Cymdeithas yr Amgueddfeydd ar Ddad-drefedigaethu.

**Dychwelyd i Darddiad (Repatriation)** – Y broses o ddychwelyd deunydd diwylliannol i'r man gwreiddiol ond gall gynnwys mwy na hynny ac fe'i disgrifir yn gliriach yn nogfen Cyngor Celfyddydau Lloegr, Restitution and Repatriation: A Practical Guide for Museums in England ac yn nogfen Cymdeithas yr Amgueddfeydd, Canllawiau Cymdeithas yr Amgueddfeydd ar Ddad-drefedigaethu.

Gall sefydliadau ddefnyddio'u terminoleg eu hunain ar gyfer y prosesau hyn. Argymhellwn eich bod yn ystyried yn ofalus pa derminoleg i'w defnyddio wrth gyfathrebu â'ch cynulleidfaoedd a'ch cymunedau a'ch bod yn rhoi llais iddynt yn y broses.

→ I gael gwybod mwy am hyn ewch i:

**Cyfathrebu am y Broses**


## Mynediad i'r cyhoedd

Er mwyn bod o fudd i'r cyhoedd, dylai casgliadau fod ar gael yn aml i'r cyhoedd. Nid yw hyn yn golygu mai dim ond amgueddfeydd neu gyrff cyhoeddus ddylai gadw'r casgliadau. Gall llawer o sefydliadau eraill gynnig mynediad ar y lefel hon. Ond mae'n rhaid i'r casgliadau fod ar gael i'r cyhoedd eu gweld neu eu defnyddio yn rheolaidd, boed hynny trwy fynediad agored neu ar gais. Dylai fod yn hawdd i aelod o'r cyhoedd gael gwybodaeth am eitemau'r casgliad a gwneud ymholiad amdanynt. Nid yw hyn yn golygu ei bod yn rhaid i bob casgliad fod ar gael ar-lein ond dylai fod sianeli cyfathrebu agored i'r cyhoedd allu gwneud ymholiadau. Ni chyfrifir fod cwmni preifat neu unigolyn sy'n caniatáu mynediad at y casgliad lond llaw o weithiau'r flwyddyn yn bodloni'r gofyniad hwn.

01

# Siart lif ar gyfer gwaredu

Gofalwch fod polisi cymeradwy ar gyfer datblygu'r casgliad ar waith, gyda threfn dad-dderbynodi sy'n cynnwys system o ddirprwyo awdurdod. Er mwyn cynnal adolygiad ehangach, ffurfiwch strategaeth, paratoi matrics asesu risg a chynllunio sut i fynd ati i ymgynghori â'r cyhoedd.



02

# Cyn i chi ddechrau – cwestiynau i'w hystyried

### Beth sy'n eich ysgogi i ddad-dderbynodi?

Ystyriwch pam yr ydych am gael gwared ar wrthrych neu gasgliad. A ydych yn ystyried gwneud gwell defnydd ohono mewn man cyhoeddus arall? A ydych yn dymuno gwaredu eitemau sydd wedi dirywio neu'n beryglus? A ydych yn ceisio clirio lle neu greu lle ar gyfer gwaith newydd e.e. casglu cyfoes? A ydych yn ceisio cynhyrchu incwm ac, os felly, pam? Bydd yr atebion i'r cwestiynau hyn yn eich helpu i ystyried a ydych yn mynd ati i ddad-dderbynodi mewn ffordd gyson a moesegol.

### Sut fydd eich cynlluniau i ddad-dderbynodi o fudd i'r cyhoedd?

Dylai budd y cyhoedd fod wrth galon y broses benderfynu ac rydym yn eich annog i gynnwys y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau. Ystyriwch pwy yw'ch cynulleidfaoedd, eich cymunedau a'ch rhanddeiliaid, a ydi'r grwpiau hyn yn cael budd o'ch casgliad ac, os felly, sut. A oes llefydd y tu allan i'r amgueddfa lle gellid gofalu am eitemau a'u defnyddio'n amlach? A ydych yn gallu rhoi digon o ofal i'r eitem i sicrhau ei bod o fudd i'r cyhoedd yn y tymor hwy? A fydd dad-dderbynodi'n golygu'ch bod yn gallu sicrhau budd i'r cyhoedd yn y dyfodol e.e. casglu cyfoes?

### Beth wyddoch chi am yr eitem?

Mae'n bwysig deall arwyddocâd eitem ac unrhyw anawsterau'n ymwneud â'i pherchnogaeth cyn penderfynu dad-dderbynodi. Dylech ystyried mynd ati mewn ffordd gymesur i asesu arwyddocâd a mynd trwy broses diwydrwydd dyladwy. A ydych wedi gwneud digon o ymdrech i ymchwilio i hanes a pherchnogaeth yr eitem neu efallai na roddwyd digon o sylw i'w harwyddocâd oherwydd diffyg gwybodaeth/manylion? Dylai'r adnoddau a neilltuwch ar gyfer hyn fod yn gymesur ag arwyddocâd yr eitem, unrhyw risgiau neu fanteision y credwch y gallent godi o'i dad-dderbynodi, a sut yr ydych yn debygol o'i throsglwyddo, ei hailddefnyddio neu ei gwaredu.

→ Gweler **Arwyddocâd a gwerth**

### A oes gennych broses ar waith?

A oes gennych broses ar gyfer sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y lefel briodol? Nid un person yn gweithredu ar ei ben ei hun ddylai wneud unrhyw benderfyniad i ddad-dderbynodi – ond gall y staff fod yn llwyr gyfrifol am rai penderfyniadau, gyda chymeradwyaeth derfynol y corff llywodraethu ac, weithiau, gallai fod angen mewnbwn y corff llywodraethu yn gynharach neu gynnwys eich cymuned a rhanddeiliaid eraill o'r dechrau'n deg. Yn ogystal, dylai proses eich sefydliad gynnwys gweithdrefnau ar gyfer gwaredu ffisegol gwrthrychau y penderfynwyd eu dad-dderbynodi, neu ddolen i'r gweithdrefnau.

### A oes rhaid i chi ystyried unrhyw ofynion deddfwriaethol sy'n berthnasol i'ch sefydliad?

Mae rhai mathau o amgueddfeydd a chasgliadau'n gorfod talu sylw i ystyriaethau ychwanegol ym maes dad-dderbynodi, fel y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol neu'r Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol. Dylech fod yn ymwybodol o'r rhain a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau.

## Cymorth wrth wneud penderfyniadau anodd

Mae cymorth ar gael os ydych yn wynebu penderfyniadau anodd ynghylch gwaredu, yn enwedig os mai rhesymau ariannol sydd dros waredu neu os ydych yn poeni ei fod yn mynd yn groes i'n Cod Moeseg neu safonau Cynllun Achredu'r DU. Mae pwyllgor moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd a chyrff achredu cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Lloegr, Llywodraeth Cymru, Museums Galleries Scotland a Chyngor Amgueddfeydd Gogledd Iwerddon yno i'ch cefnogi gydag unrhyw anawsterau arwyddocaol a allai godi.

03

# Sefydlu trefn ar gyfer dad-dderbynodi

## Y ffordd orau o sicrhau'ch bod yn gwneud penderfyniadau moesegol wrth ddad-dderbynodi a gwaredu eitemau yw cael proses a pholisi clir yn eich amgueddfa.

Dylai fod cysylltiad uniongyrchol rhwng eich proses fewnol a'ch polisi datblygu casgliadau a dylai gyfeirio at ein Cod Moeseg, sy'n cefnogi mynd ati mewn ffordd gyfrifol i ddad-dderbynodi eitemau o gasgliadau amgueddfeydd ar yr amod bod hynny'n bodloni'r holl ofynion cyfreithiol. Mae'n nodi y dylai pob amgueddfa a'r rhai sy'n gweithio ynddynt:

*"Cydnabod bod gwaredu cyfrifol yn cymryd lle fel rhan o Bolisi Datblygu Casgliadau hirdymor yr amgueddfa, a bod y broses yn dechrau gydag adolygiad curadurol. Sicrhau bod unrhyw waredu'n cael ei wneud mewn ffordd agored a chlir, yn unol â gweithdrefnau diamwys a dderbynnir yn gyffredinol."* (Para. 2.8)

Yn benodol, dylai'ch proses gydnabod bod dad-dderbynodi a throsglwyddo, ailddefnyddio neu waredu yn benderfyniad moesegol lle:

— mae'n digwydd oddi mewn i fframwaith polisi datblygu casgliadau sydd wedi'i ddiffinio'n glir ac sy'n gyfredol

— mae'n digwydd ar gyngor nifer o staff gwahanol (nid unigolyn) a bod y corff llywodraethu'n cytuno iddo neu'n dirprwyo'r penderfyniad

— mae'n digwydd gyda'r bwriad bod yr eitemau'n dal ar gael i'r cyhoedd eu gweld, lle bynnag y bo modd

— mae'n annhebygol o niweidio ymddiriedaeth y cyhoedd mewn amgueddfeydd

— mae'n annhebygol o niweidio enw da eich amgueddfa

— mae'n debygol o sicrhau bod y cyhoedd yn cael mwy o fudd o gasgliadau'r amgueddfa

— mae'r camau y bwriedir eu cymryd yn gymesur ag arwyddocâd a gwerth diwylliannol, gwyddonol neu hanesyddol yr eitem.

Er mwyn sicrhau bod eich amgueddfa'n mynd ati mewn ffordd gymesur i ddad-dderbynodi, dylai'ch Bwrdd Ymddiriedolwyr neu benderfynwr arall ystyried sefydlu system o ddirprwyo awdurdod ar gyfer penderfyniadau dad-dderbynodi.

Dylai hyn sicrhau bod penderfyniadau i ddad-dderbynodi eitemau gwerthfawr, uchel eu statws neu arwyddocaol iawn yn cael eu gwneud ar lefel y Bwrdd ar sail cyngor curadurol; tra gellir gwneud penderfyniadau ar lefel weithredol ar eitemau sydd heb lawer o werth, statws nac arwyddocâd a/neu rai sydd wedi dirywio'n fawr neu sy'n beryglus. Bydd asesiadau arwyddocâd a wneir gan guraduron a staff casgliadau yn chwarae rhan bwysig wrth wneud y penderfyniadau hyn. Sylwch: Dylid seilio penderfyniadau ynghylch dad-dderbynodi ar farn mwy nag un person bob amser a hynny, os oes modd, o wahanol adrannau o'r amgueddfa ac o blith y cyhoedd/cymunedau a phartïon sydd â buddiant. Mewn amgueddfeydd llai, gellid gofyn i uwch ymddiriedolwr neu uwch wirfoddolwr sydd â gwybodaeth am y casgliadau am ail farn. Dylai pob penderfyniad ynghylch dad-dderbynodi gael ei ddogfennu yn unol â phrosesau cytunedig a nodir yng nghanllawiau Spectrum.

Gellir dad-dderbynodi nifer o eitemau ar y tro wrth wneud gwaith ar raddfa fawr i adolygu casgliadau neu fel rhan o adolygiadau rheolaidd ar raddfa lai. Mae manteision ac anfanteision i weithredu fel hyn. Adolygiadau ar raddfa fawr yw'r ffordd orau o sicrhau bod gennych ddealltwriaeth drylwyr a chyfredol o gasgliad a'ch bod yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am eitemau nad ydynt yn cydymffurfio â'ch polisi datblygu casgliadau ac a all fod yn addas i'w dad-dderbynodi. Yn ogystal, gallant eich helpu i ganfod bylchau yn eich casgliad fel y gwyddoch beth i'w gasglu yn y dyfodol. Fodd bynnag, gallant gymryd llawer o amser ac adnoddau a chyfyngu ar eich gallu i ddad-dderbynodi cymaint ag y dylech. Mae'n werth ystyried sut y gallwch gynnwys y cyhoedd wrth adolygu casgliadau ar raddfa fawr a mynd ati i ddad-dderbynodi mewn ffordd fwy democrataidd.

Gall adolygiadau rheolaidd, ar raddfa lai, ganiatáu i amgueddfeydd ddad-dderbynodi eitemau tra bydd curaduron a gweithwyr eraill yr amgueddfa'n gwneud gwaith o-ddydd-i-ddydd ar gasgliadau. Gellir pennu eitemau, ymchwilio iddynt ac asesu eu harwyddocâd a'u cyflwr, a gall staff argymell eu bod yn cael eu dad-dderbynodi. Gellid gwneud penderfyniadau ar ddad-dderbynodi'r eitemau hyn yn fisol neu'n chwarterol ar y lefel briodol, yn unol â'r lefelau dirprwyo a nodir ym mhroses eich amgueddfa ar gyfer dad-dderbynodi. Gall y broses hon helpu i gael canlyniadau sydyn ac i sicrhau bod dad-dderbynodi'n rhan reolaidd o'r gwaith cyffredinol o reoli'ch casgliadau.

→ ASTUDIAETH ACHOS

## Adolygiad o gasgliadau MonLife Amgueddfa'r Fenni

**Cynhaliodd MonLife adolygiad, wedi'i ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, rhwng 2018 a 2022 er mwyn deall casgliadau'r amgueddfa, cynnal ymchwil, ac edrych i mewn i resymoli a gwaredu. Bu'r tîm yn adolygu casgliad hanes cymdeithasol Amgueddfa'r Fenni a rhan fechan o gasgliad Archaeoleg Amgueddfa Trefynwy.**

Addaswyd dulliau oedd yn bod eisoes er mwyn llunio grid sgorio a oedd yn ateb eu hanghenion ac, ar ddiwedd y broses, addaswyd ef eto ar sail profiad a dealltwriaeth o'r prosiect. Defnyddiwyd y grid i asesu arwyddocâd, risg, cyflwr, cyflawnder, potensial ar gyfer arddangos a defnyddio, a'r adnoddau angenrheidiol i ofalu am yr eitem.

Yr un tîm ag a roddodd sgôr i'r eitemau a aeth ati i adolygu'r casgliadau a rheoli gwaith trosglwyddo'r eitemau i amgueddfeydd eraill a gwaredu eitemau nad oedd yn berthnasol iawn i stori Sir Fynwy. Gwnaed yr holl benderfyniadau ynghylch gwaredu gan y Tîm Adolygu Casgliadau a chytunwyd arnynt gan Reolwr yr Amgueddfeydd a'r Celfyddydau. Yna cymeradwywyd y penderfyniad gan yr aelod o'r cabinet.

Cafodd cyfanswm o 1,035 o eitemau eu gwaredu, yn cynnwys:

- 132 o eitemau wedi'u trosglwyddo i amgueddfeydd neu sefydliadau eraill gan gynnwys rai i'w defnyddio gan dîm dysgu'r amgueddfa, Amgueddfa ac Archifau Conwy a Phrosiect Llong Casnewydd
- dwy eitem wedi'u dinistrio
- un casgliad wedi'i ddychwelyd i'r rhoddwr
- 408 o eitemau wedi'u gwerthu mewn ocsiwn cyhoeddus yn Sir Fynwy
- 285 o eitemau i'w gwerthu mewn ocsiwn yn 2023.

Er mwyn sicrhau tryloywder cyhoeddodd y tîm adroddiad i'r wasg yn egluro cymhellion y prosiect ac yn dweud y byddai ocsiwn. Yn ogystal, cafwyd cyfres o drydariadau yn sôn am y profiad o waredu trwy drosglwyddo eitemau i amgueddfeydd eraill. Dim ond un cwestiwn a gafwyd am y broses waredu. Yn yr ocsiwn y digwyddodd hyn a chafodd ei ateb yn hawdd gan yr arwerthwr ar sail y wybodaeth a gafwyd gan yr amgueddfa. Cafodd arian a godwyd yn yr ocsiwn cyhoeddus ei glustnodi ar gyfer gofalu am gasgliadau a'i ddefnyddio i brynu blychau di-asid pwrpasol. Mae'r blychau hyn yn cael eu defnyddio i ailbacio eitemau tecstilau.

*"Roeddem yn credu'n gryf bod y prosiect adolygu casgliadau wedi galluogi'r amgueddfa i ddatblygu ffordd fwy cynaliadwy o ofalu am y casgliadau. Fel rhan o'r broses waredu, cafodd y tîm amser i ddatgelu straeon am y gwrthrychau a gollwyd yn nyddiau cynnar yr amgueddfa. Rhoddodd well dealltwriaeth i ni o'r straeon yr oeddem am eu hadrodd a chrëwyd lle storio yr oedd mawr ei angen ar ôl i ni benderfynu gwneud llai ddefnydd o storfeydd allanol"*

Elesha-Joy Davis
Cynorthwyydd Adolygu Casgliadau, MonLife



©MonLife Amgueddfa'r Fenni

→ ASTUDIAETH ACHOS

## Ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch y posibilrwydd o waredu De Wadden yn Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl

Adeiladwyd De Wadden, sgwner tri hwylbren o'r Iseldiroedd, yn 1917. Daeth i ddwylo'r Amgueddfa Forwrol yn Lerpwl yn 1984 a'i gosod mewn doc sych ger yr amgueddfa. Pan gynhaliwyd prosiect mawr i adnewyddu'r dociau sych a thir y cyhoedd o'u cwmpas, cynhaliodd Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl (NML) adolygiad o De Wadden. Trafodwyd dyfodol y llong na fu erioed yn agored i'r cyhoedd, gan ystyried opsiynau realistig ar ei chyfer, a gallu NML i ofalu amdani yn y tymor hir.


Creodd NML grŵp llywio o staff curadurol, cadwraeth, cyfathrebu a gofal casgliadau, i archwilio dau opsiwn ar gyfer De Wadden: cadw'r llong gan wneud ychydig o waith atgyweirio, neu waredu. Buont yn trafod â DCMS a llywodraeth leol, National Historic Ships, amgueddfeydd eraill yn y DU a'r UE oedd â chysylltiadau â De Wadden, cyn-aelodau o'r staff a gwirfoddolwyr a fu'n ymwneud â chaffael y llong, a sefydliadau treftadaeth forwrol yn ardal Lerpwl.

Yn ogystal, cysylltodd y tîm â chyfryngau lleol a chenedlaethol a gofyn i'r cyhoedd roi eu barn trwy ei wefan a'i sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Buont yn cydweithio â Chymdeithas yr Amgueddfeydd ar nifer o erthyglau ar-lein am De Wadden a'r broses o waredu'r llong ac fe'i hysbysebwyd ar Find an Object. Trefnodd y grŵp llywio i ymgynghorwyr allanol wirio a oedd y broses yn gwneud synnwyr. Roedd dau aelod o Fwrdd Ymddiriedolwyr NML yn rhan o'r trafodaethau a'r sgyrsiau ar bob cam o'r broses.

Yn y pen draw, argymhellodd y grŵp llywio wrth Fwrdd yr Ymddiriedolwyr y dylid gwaredu De Wadden a derbyniodd y Bwrdd yr argymhelliad.

Ar hyn o bryd, mae'r amgueddfa'n cynnal ail gyfnod o ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn archwilio dau ddull o waredu: trosglwyddo i sefydliad arall, neu ddatgymalu'r llong. Mae National Historic Ships wedi dosbarthu datganiad ynghylch datgymalu'r llong, a gwneir penderfyniad terfynol am y dull o waredu yn 2023. Cynhelir proses o gofnodi a dogfennu'r llong yn nes ymlaen yn y flwyddyn, gyda'r posibilrwydd o gynnwys y cyhoedd yn y gwaith o nodi proses waredu De Wadden..



©National Museums Liverpool

04

# Dewis eitemau i'w dad-dderbynodi

P'un bynnag a ydych yn cynnal adolygiad mawr o'ch casgliadau neu'n gwneud gwaith dad-dderbynodi ad hoc ar raddfa lai, dylech sicrhau'ch bod wedi cynnal asesiad arwyddocâd gan gyfeirio at bolisi datblygu casgliadau'r amgueddfa. Hefyd, dylech ystyried y ffactorau a ganlyn wrth benderfynu ynghylch dad-dderbynodi.

## Eitemau nad ydynt yn cyfateb i'r polisïau casglu cyfredol

— A fyddai'r amgueddfa'n casglu'r eitem heddiw? A ydyw'n cyd-fynd â'ch polisi datblygu casgliadau?

— A ydi'r eitem yn cael ei defnyddio? A allwch chi wneud rhagor o ddefnydd o'r eitem mewn arddangosfeydd, neu wrth ymgysylltu neu ddysgu ac a fydd dad-dderbynodi'n galluogi hynny? A oes unrhyw debygolrwydd y caiff ei defnyddio yn y dyfodol?

— A ydw i'n gwybod digon am yr eitem i ganfod pam y cafodd ei chaffael?

— A ydi'r eitem yn fwy perthnasol i sefydliad arall sydd yn y parth cyhoeddus?

Wrth ddewis eitemau i'w dad-dderbynodi, dylech asesu a yw'r eitem yn berthnasol i bolisi datblygu casgliadau cyfredol yr amgueddfa. Os na fyddai'r amgueddfa'n ystyried casglu'r eitem yn awr, ac os nad ydych yn rhagweld y caiff yr eitem ei defnyddio, efallai y byddai'n briodol dad-dderbynodi'r eitem. Efallai y byddwch o'r farn na ddylai'r eitem fod wedi'i derbynodi, er enghraifft bod hynny wedi digwydd wrth dderbynodi nifer o eitemau gyda'i gilydd, neu ei bod wedi'i derbynodi oherwydd penderfyniadau casglu un unigolyn yn y gorffennol.

Gall hyn fod yn rheswm dilys dros ddad-dderbynodi eitem a'r dewis gorau fyddai ei throsglwyddo i sefydliad arall yn y parth cyhoeddus neu un sy'n caniatáu mynediad rheolaidd i'r cyhoedd.

Mae'n werth nodi hefyd y dylid diweddaru polisïau datblygu casgliadau yn ôl yr angen ac felly y byddant yn newid dros amser. Fodd bynnag, rhaid pwysleisio bod newid polisi datblygu casgliadau yn unswydd er mwyn dad-dderbynodi eitem yn anfoesegol ac na ddylid ystyried gwneud hynny.

Yn ogystal, gyda rhai mathau o gasgliadau, gallai fod yn werth ystyried a oes eitemau dyblyg neu debyg mewn amgueddfeydd eraill yn eich maes arbenigol a/neu ardal ddaearyddol. Gall fod yn rhesymol penderfynu dad-dderbynodi eitem os nad yw'n cyd-fynd â'ch polisi datblygu casgliadau a'ch bod o'r farn ei bod yn fwy addas ar gyfer casgliad amgueddfa arall.

## Canlyniadau sydyn

Mae rhai casgliadau y gellir eu dad-dderbynodi heb fod angen dilyn y broses lawn o drosglwyddo, ailddefnyddio a gwaredu e.e. eitemau sydd wedi'u difrodi gymaint fel na ellir, yn rhesymol, eu defnyddio ac eitemau y ceir sawl enghraifft ohonynt ac nad oes iddynt hanes na data unigryw. Mae'n dal yn angenrheidiol i chi ddilyn trefn diwydrwydd dyladwy a dogfennu'r broses, ond gallwch ddad-dderbynodi heb ystyriaethau eraill. Os oes eitem wedi'i difrodi fel na ellir ei hatgyweirio, gallwch ei thaflu, ei hailbwrpasu neu ei hailgylchu heb ystyried dulliau eraill o drosglwyddo, ailddefnyddio neu waredu. Yn yr un modd, efallai bod modd atgyweirio eitem, ond bod sefydliad arall mewn gwell sefyllfa i wneud hynny neu'n gallu ei wneud yn well. Os felly, mae trosglwyddo'n well na gadael yr eitem yn y storfa. Mae deunyddiau peryglus nad oes iddynt botensial ar gyfer ymchwil yn perthyn i'r dosbarth hwn hefyd er y bydd y broses waredu'n fwy cymhleth. Os yw eitem yn fygythiad i iechyd a diogelwch y cyhoedd neu'r gweithlu, dylid ei gwaredu mewn ffordd ddiogel ac yn unol â'r canllawiau a'r rheoliadau perthnasol.

→ Gweler **Cofnodi'r broses**

# Arwyddocâd a gwerth

Mae llawer o amgueddfeydd yn defnyddio asesiadau arwyddocâd i bennu arwyddocâd diwylliannol, hanesyddol neu wyddonol eitem a/neu y data cysylltiedig.

Yn aml, bydd y broses hon yn help i benderfynu a yw eitem yn bodloni meini prawf polisi'r amgueddfa ar ddatblygu casgliadau. Gall y broses helpu'r amgueddfa i ddeall gwerth ariannol eitem hefyd, er nad dyna'i phrif ddiben.

Os ydych yn cael trafferth i asesu arwyddocâd eitem – er enghraifft, oherwydd diffyg gwybodaeth am yr eitem, ei tharddiad neu ei diben – efallai y byddai'n werth ymgynghori â ffynonellau gwybodaeth arbenigol fel Rhwydweithiau Arbenigwyr Pwnc, grwpiau buddiant, grwpiau cymunedol, neu gymuned tarddiad yr eitem. Dylid gwneud hyn mewn ffordd resymol – nid yw'n werth chwilio am wybodaeth bellach am bob eitem, ond gall fod yn fuddiol ar gyfer rhai eitemau os oes rheswm dros amau y gallai rhagor o wybodaeth newid eich barn ar arwyddocâd yr eitem.

→ Gweler **Llun llawn o asesiad arwyddocâd**

## Darn o grid sgorio a baratowyd gan Treftadaeth MonLife ar gyfer adolygu casgliadau.

| | Arwyddocâd a pherthnasedd i'r Polisi Datblygu Casgliadau | Risgiau sy'n gysylltiedig â gofalu am yr eitem a'i defnyddio | Cyflwr a Gofal | Cyfanrwydd | Potensial ar gyfer arddangos, defnyddio, ymgysylltu ac ymchwil | Adnoddau ar gyfer rheoli, gofalu a defnyddio |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **A** | – Arwyddocâd amlwg – cenedlaethol, rhanbarthol, lleol neu gymunedol.<br>– Perthnasol i'r Polisi Datblygu Casgliadau.<br>– Mae'n hysbys bod yr eitem yn unigryw neu'n brin. | Risg isel y bydd peryglon. | Gweler y tabl uchod | – Naill ai'n hollol gyflawn neu, os oes rhannau ar goll, nid ydynt yn hanfodol i bwysigrwydd ac arwyddocâd yr eitem.<br>– Ymddengys bod yr eitem yn ei chyflwr gwreiddiol. | Potensial ar gyfer:<br>– Cael ei harddangos yn barhaol.<br>– Bod yn seren arddangosfa / "waw" ffactor.<br>– Cael ei chysylltu'n bendant â'r sefydliad neu'r lleoliad ym meddwl y cyhoedd.<br>– Defnyddio'r eitem yn rheolaidd ar gyfer ymchwil neu botensial cryf ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd<br>– Defnyddio'r eitem yn rheolaidd ar gyfer ymchwil neu botensial cryf i'w defnyddio ar gyfer ymchwil. | Mae'r adnoddau presennol yn briodol.<br>– Gellir rheoli, storio a defnyddio'r eitem ag adnoddau'r amgueddfa ei hunan. |
| **B** | – Arwyddocâd amlwg – lleol neu gymunedol<br>– Perthnasol i'r Polisi Datblygu Casgliadau. | – Risg isel ar hyn o bryd ond gallai peryglon ddod i'r amlwg heb waith priodol i reoli'r casgliadau. | Gweler y tabl uchod | – Cyflawn neu ddim ond ychydig o rannau ar goll.<br>– Bron yn ei chyflwr gwreiddiol neu, os oes addasiadau, maent yn gyson â'i hanes a'r defnydd a wnaed ohoni.<br>– Os oes darnau ar goll, mae modd nabod yr eitem o hyd. | Potensial ar gyfer:<br>– Ennyn diddordeb ymwelwyr ac ysgogi trafodaeth.<br>– Cyfrannu at arddangosfa barhaol neu dros dro.<br>– Ei defnyddio i ymgysylltu â'r cyhoedd.<br>– Ei defnyddio mewn ymchwil. | Yr amgueddfa'n methu diwallu'r anghenion o ran rheoli, storio neu ddefnyddio. Angen ychydig o adnoddau ychwanegol.<br>– Byddai angen ychydig o gyllid ychwanegol, y tu hwnt i adnoddau'r amgueddfa, i storio, arddangos neu drin yr eitem. |
| **C** | **C1**<br>– Rhoddwyd yr eitem gan roddwr lleol a enwyd ac sydd â chyfeiriad lleol a: Tybir, ond ni phrofwyd, bod ganddi stori/ cysylltiad lleol neu gymunedol: a'i bod o ddiddordeb sefydliadol, hanesyddol, aesthetig, artistig, gwyddonol neu gymdeithasol.<br>– Y tu allan i'r Polisi Datblygu Casgliadau ond yn berthnasol iawn i eitemau eraill yng nghasgliadau Sir Fynwy neu'n darlunio straeon arwyddocaol am Sir Fynwy sydd heb gynrychiolaeth hyd yma.<br>**C2**<br>– Rhoddwyd yr eitem gan roddwr lleol a enwyd ac sydd â chyfeiriad lleol ond does dim gwybodaeth am y defnydd a wnaed ohoni, ei tharddiad ac ati.<br>– Tybir, ond ni phrofwyd, bod i'r eitem bwysigrwydd lleol, cymunedol neu sefydliadol neu mae iddi ychydig bach o bwysigrwydd penodol felly ond efallai ei bod o beth diddordeb hanesyddol, aesthetig, artistig, gwyddonol neu gymdeithasol<br>– Y tu allan i'r Polisi Datblygu Casgliadau.<br>– Tebyg i eitem(au) arall yng nghasgliadau Amgueddfeydd Sir Fynwy. | – Mae rhai peryglon ond gellir eu rheoli'n ddiogel â PPE addas.<br>– Mae angen adnoddau ychwanegol i symud yr eitem yn ddiogel oherwydd ei maint neu ei phwysau. | Gweler y tabl uchod | – Anghyflawn<br>– Mae'r eitem wedi'i haddasu'n sylweddol ac nid yw'r newidiadau hyn yn berthnasol i gyfnodau arwyddocaol yn ei hanes. | – Ddim yn ganolbwynt i sylw'r cyhoedd ar hyn o bryd ond gall fod peth potensial ar gyfer hyn yn y dyfodol.<br>– Ni wyddom ei bod wedi'i defnyddio mewn arddangosiadau.<br>– Ychydig o botensial i'w defnyddio i ymgysylltu â'r cyhoedd.<br>– Ychydig o botensial i'w defnyddio mewn ymchwil. | Yr amgueddfa'n methu diwallu'r anghenion o ran rheoli, storio neu ddefnyddio. Angen adnoddau ychwanegol sylweddol.<br>– Byddai angen codi rhagor o arian i'w thrin neu ei harddangos.<br>– Ar ôl gwneud gwaith cadwraeth angenrheidiol, gellir cadw'r eitem yn yr hirdymor ag ychydig o adnoddau ychwanegol. |
| **D** | – Ni chyfrifir bod yr eitem o ddiddordeb aesthetig, artistig, hanesyddol, gwyddonol na chymdeithasol.<br>– Y tu allan i'r Polisi Datblygu Casgliadau.<br>– Eitem ddyblyg eisoes yn y casgliad. | – Byddai gofalu am yr eitem neu ei defnyddio yn achosi perygl ar unwaith.<br>– Mae maint neu bwysau'r eitem yn achosi risg ac mae angen adnoddau ychwanegol sylweddol i symud yr eitem / darparu mynediad ati yn ddiogel | | – Anghyflawn ac nid yw'n glir beth oedd ei diben gwreiddiol na sut yr oedd yn edrych.<br>– Ni ellir ei hadnabod.<br>– Efallai mai copi ffug ydyw. | – Dim yn addas i'w harddangos.<br>– Dim potensial ar gyfer bod yn ganolbwynt sylw'r cyhoedd.<br>– Dim potensial i'w defnyddio i ymgysylltu â'r cyhoedd.<br>– Dim potensial i'w defnyddio mewn ymchwil. | Yr amgueddfa'n methu diwallu'r anghenion o ran rheoli, storio neu ddefnyddio. Angen lefel anghynaliadwy o adnoddau.<br>– Angen gwaith trin ar lefel uchel.<br>– Angen lefel anghynaliadwy o adnoddau i storio, rheoli a defnyddio'r eitem yn y tymor hir hyd yn oed os gwneir gwaith cadwraeth. |

## Eitemau na wneir digon o ddefnydd ohonynt

— A ellid defnyddio mwy ar yr eitem gyda gwell gwybodaeth neu fwy o gyfle i'w gweld/defnyddio?

— A allwch chi wneud rhagor o ddefnydd o'r eitem mewn arddangosfeydd, neu wrth ymgysylltu neu ddysgu ac a fydd dad-dderbynodi'n eich galluogi i wneud hynny?

— A oes i'r eitem werth ar gyfer ymchwil os nad yw'n cael ei defnyddio'n rheolaidd?

Mae eitem sy'n cymryd lle mewn storfa, nad yw'n cydymffurfio â'ch polisi datblygu casgliadau ac y mae'n annhebygol y caiff ei defnyddio nac ymchwilio iddi byth eto yn anghynaliadwy. Os dewisir eitem i'w dad-dderbynodi gan ddefnyddio'r meini prawf hyn, y dewis gorau fyddai ei throsglwyddo i sefydliad arall sydd yn y parth cyhoeddus neu'n cynnig mynediad rheolaidd i'r cyhoedd. Mae rhagor o fanylion am hyn yn yr adran ar ddulliau trosglwyddo, ailddefnyddio a gwaredu.

## Eitemau sydd wedi'u difrodi neu'n beryglus

— A oes gwerth i'r eitem a hithau wedi'i difrodi neu'n beryglus?

— A ydi'r perygl y tu hwnt i'w reoli i'r graddau bod risg i bobl neu eitemau eraill os caiff ei chadw yn ei chyflwr presennol?

— A oes modd atgyweirio'r eitem neu ei gwneud yn ddiogel ac, os felly, a all eich sefydliad fforddio gwneud hynny neu godi arian i'w wneud yn y dyfodol agos?

Os yw eitem wedi'i difrodi ac nad oes modd ei hatgyweirio, gallwch ei dad-dderbynodi. Os yw'n bosibl y gallai sefydliad arall ei hatgyweirio a'i defnyddio, gallwch ystyried ei throsglwyddo – mae rhagor o fanylion am hyn yn yr adran ar ddulliau trosglwyddo, ailddefnyddio a gwaredu. Os na allwch reoli'r risg i bobl neu eitemau eraill yn y casgliad os byddwch yn cadw'r eitem, mae arnoch gyfrifoldeb naill ai i drin yr eitem er mwyn dileu'r risg, rheoli'r risg yn iawn neu ddinistrio'r eitem a'i gwaredu'n ddiogel.

Sylwch: Mae'n anfoesegol caniatáu yn fwriadol i eitem sydd wedi'i derbynodi ddirywio i'r graddau na ellir ei hatgyweirio er mwyn cael gwared arni.

→ ASTUDIAETH ACHOS

### Deunyddiau peryglus gan Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Birmingham

**Aeth Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Birmingham ati i adolygu a ffurfioli eu polisi a'u proses dad-dderbynodi yn 2018 gan eu galluogi i gwblhau'r broses o ddad-dderbynodi rhagor o eitemau.**

Yn 2021 bu'n rhaid symud llawer o eitemau o Amgueddfa ac Oriel Gelf Birmingham cyn gwneud gwaith ailweirio ar yr adeilad. Yn ystod y broses hon daeth yn amlwg nad oedd y polisi'n addas ar gyfer eitemau a oedd yn cynnwys peryglon sylweddol, nac eitemau mewn cyflwr mor wael fel nad oedd modd eu hatgyweirio gan ei bod yn broses 3-6 mis a oedd yn cynnwys ystyried y posibilrwydd o'u trosglwyddo.

Wrth greu rhestr o'r eitemau i'w symud, daeth staff yr amgueddfa ar draws eitemau nad oedd modd eu hatgyweirio a/neu oedd yn cynnwys peryglon sylweddol. Er enghraifft, daethant o hyd i fasgiau nwy a oedd yn cynnwys asbestos, a blwch yn cynnwys thermomedr mercwri wedi torri. Roeddent yn awyddus i ddelio â'r eitemau hyn cyn gynted â phosibl, gan sicrhau eu bod yn cael eu gwaredu mewn ffordd gyfrifol.

Roedd Fframwaith Rheoli Casgliadau cymeradwy'r Ymddiriedolaeth eisoes yn cynnwys system gan berchnogion y



casgliadau, Cyngor Dinas Birmingham, oedd yn dirprwyo awdurdod gan ganiatáu i'r Cyfarwyddwr benderfynu mynd ati ar unwaith i waredu eitemau a oedd yn risg i iechyd a diogelwch, ac eitemau a ddifrodwyd fel na ellid eu hadnabod neu eu defnyddio. Fodd bynnag, nid oedd gan yr amgueddfa broses glir ar gyfer gwneud hyn na'i ddogfennu.

Llwyddodd y tîm i gywiro hyn trwy addasu gwaith papur i greu dogfen syml, un dudalen A4 a oedd yn amlinellu natur yr eitem, a'r rheswm dros ei gwaredu ar frys. Cofnodwyd y penderfyniadau hyn yng nghyfarfodydd misol y pwyllgor casgliadau. Gellid ychwanegu'r ffurflenni at gofnodion y casgliadau ar eu system rheoli casgliadau a chofnodi'r penderfyniadau yng nghofnodion ffurfiol y cyfarfodydd. Ar ôl y penderfyniad ffurfiol, gwaredwyd y masgiau nwy a'r thermomedr mewn ffordd ddiogel. Roedd y gwaith papur newydd yn sicrhau bod modd ymdrin yn gyflymach o lawer, mewn ffordd symlach oedd wedi'i dogfennu, â deunydd oedd yn beryglus neu wedi dirywo'n sylweddol.

## Eitemau dyblyg

— A yw'r eitem mewn cyflwr gwell na'r eitem(au) dyblyg eraill?

— A oes hanes neu ddata unigryw yn gysylltiedig â hi?

— A oes angen mwy nag un enghraifft ar gyfer ymchwil wyddonol?

— A allwch ddefnyddio'r eitem mewn arddangosfeydd, neu wrth ymgysylltu neu ddysgu ac a fydd dad-dderbynodi'n galluogi hynny?

— A oes enghreifftiau eraill o'r eitem ar gael yn gyffredin mewn amgueddfeydd eraill?

Os nad oes i eitem ddyblyg hanes unigryw, ac os yw'n cael ei thanddefnyddio a heb fawr o botensial ymchwil, dylech ei dad-dderbynodi. Os oes sawl enghraifft o'r eitem mewn amgueddfeydd eraill, gallwch ystyried ei dad-dderbynodi heb ystyriaethau eraill. Yn achos yr eitemau hyn, efallai yr hoffech ystyried a all sefydliad arall wneud gwell defnydd o'r eitem. Mae rhagor o fanylion am hyn yn yr adran Dulliau trosglwyddo, ailddefnyddio a gwaredu.

## Dad-dderbynodi am resymau moesegol

— A yw'r eitem wedi'i phennu trwy ddull ymgynghorol ac ystyriol?

— Ai chi sydd wedi mynd ati o'ch pen a'ch pastwn eich hunan i geisio dad-dderbynodi eitemau am resymau moesegol neu a gafwyd cais i'w dychwelyd?

— A ydych wedi cyfeirio at ganllawiau eraill yn cynnwys ein Cod Moeseg, ein Canllawiau ar Ddad-drefedigaethu a'r Restitution and Repatriation: A Practical Guide gan Gyngor Celfyddydau Lloegr?

Dylid ystyried dad-dderbynodi eitem a'i dychwelyd os oes rhyw amheuaeth ei bod wedi'i chymryd ar gam yn ystod cyfnod o wrthdaro, wedi'i dwyn, wedi'i hallforio'n anghyfreithlon neu ei masnachu'n anghyfreithlon, os na chaniateir hynny'n benodol gan gytuniadau neu gytundebau eraill, neu fod yr amgueddfa'n cydweithredu ag ymdrechion i ganfod pwy yw perchennog/perchnogion cyfreithlon eitem. Rydym yn annog gwneud hyn mewn ffordd ragweithiol. Yn achos dychwelyd eitemau y gofynnir amdanynt, mae'n bwysig ymateb yn brydlon gan nodi amserlen ar gyfer ymholi, ymgysylltu â'r holl randdeiliaid perthnasol, cynnal proses diwydrwydd dyladwy a chofnodi manylion y broses benderfynu.

## Eitemau mawr ac arbed lle

— A yw'r eitem yn bodloni polisi'r amgueddfa ar ddatblygu casgliadau?

— A yw'r eitem yn cael gofal priodol ac yn cael ei defnyddio'n dda ar ei safle presennol?

— A ydi'r eitem yn fwy perthnasol i sefydliad arall sydd yn y parth cyhoeddus?

Gall fod yn demtasiwn rhoi blaenoriaeth i ddad-dderbynodi eitemau mawr er mwyn arbed lle a lleihau costau'n sydyn. Mae blaenoriaethu eitemau fel hyn i'w cynnwys mewn adolygiad o gasgliadau yn cyd-fynd â'r Cod Moeseg. Fodd bynnag, dylai penderfyniadau i ddad-dderbynodi neu beidio gael eu harwain gan asesiad curadurol a gan gyfeirio at y ffactorau eraill yn y rhestr hon a all gyfrannu at benderfyniadau moesegol.

## Gwirio ei bod yn gyfreithlon i chi drosglwyddo, ailddefnyddio neu waredu

Darllenwch ddogfennau'r eitem i sicrhau bod gan yr amgueddfa hawl cyfreithiol i'w thynnu o'r casgliad ac nad oes amodau ynghlwm a allai atal yr amgueddfa rhag gwneud hynny. (Yn achos eitemau arwyddocaol iawn a rhai gwerthfawr iawn, dylech ystyried ceisio cyngor cyfreithiol os oes angen.) Os yw'r amgueddfa'n bwriadu cael gwared ar eitemau sydd heb eu derbynodi neu eitemau heb lawer o wybodaeth am eu tarddiad, lle na ellir canfod teitl ffurfiol, dylid cynnal asesiad risg o'r camau hyn. Dylai unrhyw gamau a gymerir fod yn gymesur â gwerth ac arwyddocâd yr eitem, a'r tebygolrwydd y byddai'n rhaid i'r amgueddfa unioni'r sefyllfa yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu y dylai amgueddfeydd fod yn fwy gofalus wrth ymdrin ag eitemau arwyddocaol iawn a rhai gwerthfawr iawn na gyda eitemau heb fawr o arwyddocâd na gwerth.

## Darn o fatrics asesu risg diwydrwydd dyladwy Amgueddfeydd Cenedlaethol yr Alban.

### Matrics 1: Eitemau sydd â'u tarddiad yn y Deyrnas Unedig

| Categori Risg | Gwyrdd | Ambr | Coch |
|---|---|---|---|
| **Asesiad Risg** | Risg isel | Risg ganolig | Risg uchel |
| **Ystyriaethau** | | | |
| Statws o ran cofnodion tarddiad | Cofnodion tarddiad llawn neu rai bylchau yn y cofnodion. Y ffynhonnell wedi rhoi tystiolaeth o hawl ddilys i feddiannu'r eitem. Dim tystiolaeth bod yr eitem wedi'i dwyn, ei smyglo na'i hysbeilio | Dim cofnodion tarddiad ar gael. Dim tystiolaeth o hawl ddilys i feddiannu'r eitem. Dim tystiolaeth bod yr eitem wedi'i dwyn, ei smyglo na'i hysbeilio | Tebygol iawn bod yr eitem wedi'i dwyn, ei smyglo neu ei hysbeilio |
| Unrhyw hawliadau gan drydydd parti yn y gorffennol, ar hyn o bryd neu, o bosib, yn y dyfodol | Na | | Oes |
| Hanes cyflawn perchnogaeth 1933-45? | Oes | Na | |
| A gafodd yr eitem ei hallforio o'r Deyrnas Unedig i Ewrop cyn 1945, ac a fu newid ym meddiant yr eitem yn ystod cyfnod y Natsïaid (1933-1945)? | Na | Do, neu nad yw'n hysbys | |
| A gafodd yr eitem ei hallforio o'r Deyrnas Unedig ers 1970 heb gyflenwi copi o'r caniatâd neu'r drwydded allforio? | Na | Do | |

→ Gweler **Asesiad risg llawn diwydrwydd dyladwy**

## Diwydrwydd dyladwy

Pan fydd eitem wedi'i dewis ar gyfer ei dad-dderbynodi, mae angen i chi gynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy er mwyn sicrhau bod gan yr amgueddfa hawl gyfreithiol i drosglwyddo neu waredu'r eitem. Dylech wirio hanes yr eitem a rhoi sylw arbennig i'r materion isod:

**Benthyciad:** Os mai ar fenthyg y mae'r eitem dan sylw, cysylltwch â'r benthyciwr i drafod ei dychwelyd. Ni ddylai benthyciadau fod yn rhan o gasgliadau sydd wedi'u derbynodi ond mae angen eu hystyried, yn yr un modd, i'w cynnwys mewn adolygiad fel rhan o arferion da rheoli casgliadau.

**Eitem a brynwyd:** Os prynwyd yr eitem â chymorth arian allanol, cysylltwch â'r cyrff ariannu i drafod unrhyw gamau y bwriedwch eu cymryd.

**Rhodd/cymynrodd:** Ewch ati i ganfod a osodwyd unrhyw amodau pan roddwyd yr eitem a bod angen eu hystyried er mwyn ei throsglwyddo, ei hailddefnyddio neu ei gwaredu mewn modd moesegol. Ystyriwch a yw'n bosibl ac yn briodol cysylltu â'r rhoddwr gwreiddiol i'w hysbysu o'ch penderfyniad i ddad-dderbynodi.

→ Gweler **Dychwelyd i'r rhoddwr**

**Nid yw'r dull derbyn yn hysbys:** Rhaid i'r amgueddfa gymryd camau rhesymol a chymesur i ymchwilio i hanes eitem.

## Penderfynu tynnu eitem o'r casgliad

Dylai penderfyniadau ynghylch tynnu eitem o'r casgliad gael eu gwneud gan gorff llywodraethu'r amgueddfa gan weithredu ar gyngor staff perthnasol, neu drwy system o ddirprwyo awdurdod ar gyfer penderfyniadau dad-dderbynodi. Ni ddylai un aelod o staff ar ei ben ei hun benderfynu tynnu eitem o'r casgliad. Dylai'r penderfyniad terfynol ynghylch dad-dderbynodi eitem gael ei gymeradwyo gan y corff llywodraethu ei hunan neu drwy broses o ddirprwyo awdurdod a dylid ei ddogfennu.

→ Gweler

**Sefydlu proses dad-dderbynodi**

### Gall penderfyniadau anfoesegol i ddad-dderbynodi eitem gael canlyniadau difrifol i'r amgueddfa.

Mae'r rhain yn debygol o gynnwys:

- colli neu niweidio ffydd y cyhoedd ym mhob amgueddfa
- cyhoeddusrwydd anffafriol a barn negyddol am yr amgueddfa am gyfnod hir
- tynnu'r amgueddfa o'r Cynllun Achredu a'i gwahardd
- camau disgyblu gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd (os yw'n aelod)
- colli mynediad at ffrydiau ariannu.

Er y gall gwneud penderfyniadau anfoesegol arwain at y canlyniadau difrifol uchod, os dilynwch y canllawiau hyn gallwch fynd ati'n hyderus i ddad-dderbynodi pan fydd angen fel rhan o'ch arferion da ym maes casglu.

05

# Dulliau trosglwyddo, ailddefnyddio neu waredu

# Rhoi neu drosglwyddo i sefydliad/corff arall yn y parth cyhoeddus

Yn y gorffennol, bu tuedd gref i drosglwyddo eitemau i amgueddfeydd achrededig ond nid yw'n gynaliadwy i amgueddfeydd basio casgliadau ymhlith ei gilydd yn ddi-baid gan nad yw hynny'n rhyddhau mwy o le storio yn y sector yn gyffredinol. Ni ddylai amgueddfeydd ystyried cymryd casgliadau na fyddent yn eu defnyddio ac efallai y byddai sefydliadau eraill mewn gwell sefyllfa i gynnig mynediad at yr eitemau. Felly, mae trosglwyddo'n ehangach yn y parth cyhoeddus, gan gynnwys i grwpiau sy'n cynnig mynediad rheolaidd i'r cyhoedd, yn cael ei ystyried yn ddull dilys o drosglwyddo erbyn hyn.

→ ASTUDIAETH ACHOS

## Trosglwyddo Locomotif Baldwin o'r Imperial War Museum i Reilffordd Ucheldir Cymru

**Daeth Locomotif Stêm Baldwin Dosbarth 10-12-D i ddwylo'r Imperial War Museum (IWM) yn 1985 a'r bwriad oedd ei adfer i'w arddangos. Defnyddiwyd y model hwn gan Reilffordd Ucheldir Cymru (RhUC) yn yr 1920au. Heddiw, mae RhUC yn rheilffordd dreftadaeth weithiol sy'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr a'i hamcanion elusennol yw "hyrwyddo ac addysgu'r cyhoedd mewn materion yn ymwneud â rheilffyrdd". Gan na lwyddodd yr amgueddfa i fwrw ymlaen â'i chynllun adfer, penderfynwyd cynnig y Baldwin i RhUC fel y gallent ei adfer a, maes o law, ei ddefnyddio ar y rheilffordd. Symudwyd y Baldwin i RhUC yn 2004.**

Yn 2022, fel rhan gynllun adolygu casgliadau, bu'r pwyllgor datblygu casgliadau yn ailystyried trefniadau benthyca'r locomotif. Gan nad oedd cynlluniau gan IWM i arddangos y locomotif yn gyhoeddus ar yr un o'i safleoedd, argymhellwyd y gellid ei ddad-dderbynodi a'i waredu.

O ystyried y prosiect adfer oedd ar y gweill, y cysylltiad hanesyddol a'r budd i'r cyhoedd, ar y pryd ac i'r dyfodol, o fod y locomotif gyda RhUC, argymhellodd pwyllgor datblygu casgliadau'r IWM y dylid ei gynnig yn uniongyrchol i RhUC fel rhodd. Cymeradwywyd yr argymhelliad hwn gan Fwrdd Ymddiriedolwyr IWM a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chwblhawyd y trosglwyddiad ym mis Ionawr 2023.

Ar hyn o bryd, mae tîm o wirfoddolwyr medrus yn RhUC yn trin y locomotif fel y gellir ei ddefnyddio i gario ymwelwyr er mwyn pleser. Trwy drosglwyddo locomotif Baldwin i Reilffordd Ucheldir Cymru, bydd yn dal ar gael i'r cyhoedd ac fe gânt fwy o fudd ohono.



Locomotif BaldwinIWM yn Rheilffordd Ucheldir Cymru, © R Hughes

## Pethau i'w hystyried:

— Sut fyddai trosglwyddo'r eitem i amgueddfa arall yn helpu i gyflawni'ch ymrwymiad i gymunedau?

— Pa mor debygol ydyw y byddai mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r eitem trwy drosglwyddo i sefydliad sydd yn y parth cyhoeddus neu'n cynnig mynediad rheolaidd i'r cyhoedd?

— A ydi'r sefydliad derbyn yn gallu rhoi gofal digonol a chyfleoedd digonol ar gyfer mynediad a/neu fudd y cyhoedd?

— A fyddai'r sefydliad derbyn yn gallu cynnig gofal a chyfleoedd i'r cyhoedd gael mynediad pe baent yn cael gwybodaeth neu hyfforddiant gan yr amgueddfa sy'n dad-dderbynodi?

— Pwy fydd yn talu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r trosglwyddiad e.e. costau cludiant?

— Sut mae'r cyhoedd yn debygol o ymateb i'r penderfyniad?

## Camau i'w cymryd:

— sicrhau bod gan yr amgueddfa hawl gyfreithiol i roi'r eitem yn rhodd am ddim neu ei throsglwyddo

— os oes modd, canfod sefydliadau addas sydd yn y parth cyhoeddus neu'n cynnig mynediad rheolaidd i'r cyhoedd a chysylltu'n uniongyrchol â nhw

— os na ellir canfod sefydliad yn uniongyrchol, hysbysu'r sector amgueddfeydd a grwpiau perthnasol eraill bod yr eitem ar gael trwy wasanaeth rhestru Find an Object neu sianeli eraill

— ar ôl canfod derbynnydd newydd, cytuno ar delerau trosglwyddo (cost, cyfrifoldeb am gludiant, cyngor gofal ac ati)

— sicrhau bod y teitl cyfreithiol yn cael ei drosglwyddo i'r sefydliad derbyn

— dogfennu'r eitem a'r broses.

## Beth i'w wneud os nad yw'r dull hwn yn llwyddo:

— ystyried a allai dull arall o drosglwyddo, ailddefnyddio neu waredu fod yn addas

— ailedrych ar y penderfyniad i dynnu'r eitem o'r casgliad.

→ ASTUDIAETH ACHOS

## Trosglwyddo camerâu o gasgliad Grŵp yr Amgueddfeydd Gwyddoniaeth i'w defnyddio mewn colegau a phrifysgolion

**Yn 2021 cynhaliodd Grŵp yr Amgueddfeydd Gwyddoniaeth adolygiad o gamerâu ffilm a gafwyd o dan gynllun cyfnewid camerâu 'Kodak New for Old'. Roedd y cynllun yn galluogi cwsmeriaid i gael arian oddi ar bris camera newydd yn gyfnewid am eu hen gamera. Roedd y casgliad yn cynnwys tua 2000 o gamerâu ffilm gyda llawer iawn o gopïau dyblyg. Bu'r Grŵp yn asesu pob camera o ran straeon neu nodweddion unigryw, copïau dyblyg, cyflwr, a pheryglon. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, gallai'r Grŵp ymchwilio'n well i'r camerâu, gan ganfod enghreifftiau unigryw oedd heb gopïau dyblyg mewn rhannau eraill o'r casgliad yn ogystal ag amlygu camerâu dyblyg y gellid eu hailgartrefu.**

Trefnwyd bod y camerâu y penderfynwyd eu dad-dderbynodi ar gael i'w trosglwyddo a hysbysebwyd nhw ar dudalen Find an Object Cymdeithas yr Amgueddfeydd ac ar wefan yr Amgueddfa Wyddoniaeth. Gan nad oedd gan amgueddfeydd ddim diddordeb, cytunwyd y gallai fod er budd y cyhoedd petai'r camerâu'n cael eu cynnig i golegau a phrifysgolion i'w defnyddio gan fyfyrwyr ac athrawon mewn adrannau ffotograffiaeth neu gelf.

Ar ôl ymchwilio'n helaeth i golegau a phrifysgolion oedd ag adrannau celf neu ffotograffiaeth ger amgueddfeydd y Grŵp, hysbyswyd y sefydliadau bod camerâu ar gael i fyfyrwyr, athrawon neu ymarferwyr oedd yn dymuno'u defnyddio yn eu gwaith. Er bod rhai o'r camerâu'n dal i weithio ac y gellid eu defnyddio ar gyfer prosiectau, roedd eraill yn addas i'w defnyddio ar gyfer addysgu, neu ar gyfer arddangosiadau neu brosiectau celf.

Cysylltwyd â saith deg o sefydliadau ar draws Wiltshire, Llundain, Manceinion, Bradford a Chaerefrog, a throsglwyddwyd camerâu i 28 o wahanol golegau a phrifysgolion ledled y wlad, yn cynnwys Leeds Arts University, Goldsmiths a New College Swindon. Mae myfyrwyr ym Mhrifysgol Salford eisoes wedi cychwyn ar brosiect i ailddefnyddio'r camerâu, gan eu defnyddio i greu deunydd ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a hyrwyddo cynaliadwyedd mewn ffotograffiaeth.

Trosglwyddwyd cyfanswm o 1,473 o gamerâu. Cadwyd tua 500 o gamerâu yn y casgliad a'u dogfennu'n well o ganlyniad i'r adolygiad, gan eu gwneud yn fwy hygyrch i ymchwilwyr a'r cyhoedd. Cyhoeddodd y Grŵp flogiad i dynnu sylw at y broses adolygu a dangos sut yr aseswyd y camerâu.

# Dychwelyd i'r rhoddwr

Efallai y byddwch yn ystyried dychwelyd eitemau i'r rhoddwyr os yw'n ymddangos yn amhosibl eu cadw yn y parth cyhoeddus. Rydym yn argymell y dylech gynnig eitem i sefydliadau eraill yn y parth cyhoeddus cyn ystyried ei dychwelyd i'r rhoddwr, oni bai mai dyna yw'r peth gorau er budd yr amgueddfa a'i fod er budd y cyhoedd hefyd, oherwydd e.e. amodau'n gysylltiedig â'r rhodd; bod i'r eitem arwyddocâd personol arbennig i'r rhoddwr a dim llawer o werth diwylliannol. Gall dychwelyd eitemau i ddisgynyddion rhoddwyr fod yn broblemus a dylid ystyried y mater hwnnw yn ofalus iawn.

### Pethau i'w hystyried:

— a ydyw'n gyfreithlon i'r amgueddfa ddychwelyd yr eitem (er enghraifft, byddai angen i sefydliadau elusennol gael cymeradwyaeth lawn yr ymddiriedolwyr a chydymffurfio â'u herthyglau/trefniadau llywodraethiant)

— faint o amser sydd ers i'r amgueddfa dderbyn y rhodd a pha mor debygol ydyw bod manylion y rhoddwr yn gyfredol. (Gall fod yn fuddiol pennu cyfnod penodol o amser ar gyfer cynnwys rhoddwyr – er enghraifft os rhoddwyd yr eitem yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, a rhoi ystyriaeth i gymesuredd wrth wneud hyn)

— y perygl y bydd anghydfod teuluol dros yr eitem

— ymateb posibl y cyhoedd i'r penderfyniad hwn a chanlyniadau posibl cyhoeddusrwydd anffafriol.

### Camau i'w cymryd:

— cofnodi perchnogaeth gyfreithiol

— cysylltu â'r rhoddwr i weld a hoffai gael yr eitem yn ôl

— sicrhau bod y teitl cyfreithiol yn cael ei drosglwyddo i'r derbynnydd

— dogfennu'r eitem a'r broses.

### Beth i'w wneud os nad yw'r dull hwn yn llwyddo:

— ystyried a allai dull arall o drosglwyddo, ailddefnyddio neu waredu fod yn addas

— ailedrych ar y penderfyniad i dynnu'r eitem o'r casgliad.

## Adfer a dychwelyd i'w tarddiad

Nid yw'r canllawiau hyn yn cynnwys adfer (restitution) a dychwelyd (repatriation) eitemau i'w tarddiad. Os ydych yn ystyried hynny, dylech gyfeirio at ganllawiau Cyngor Celfyddydau Lloegr, Restitution and Repatriation: A Practical Guide for Museums In England a dogfen Cymdeithas yr Amgueddfeydd, Canllawiau Cymdeithas yr Amgueddfeydd ar Ddad-drefedigaethu.

# Gwerthu eitem yn y parth cyhoeddus

Mae traddodiad o roi neu drosglwyddo eitemau am ddim rhwng sefydliadau/mudiadau yn y parth cyhoeddus ac rydym yn argymell peidio â chynnig gwerthu eitemau i amgueddfeydd eraill yn y lle cyntaf. Os gofynnir am dâl i amgueddfeydd eraill a ariennir yn gyhoeddus, gall olygu'ch bod yn llai tebygol o ganfod cartref newydd i'r eitem a'i bod yn llai tebygol y bydd yr eitem yn cael ei chadw yn y parth cyhoeddus. Fodd bynnag, gallai rhai amgueddfeydd ddewis gwerthu i amgueddfeydd eraill yn y lle cyntaf, er enghraifft, am fod y sefydliad wedi prynu'r eitem â'i arian ei hunan neu wedi buddsoddi swm sylweddol o arian yn ei thrin.

Rhaid i unrhyw incwm a gynhyrchir o werthu eitemau gael ei fuddsoddi er budd hirdymor yr amgueddfa a'i chasgliadau. Gall hyn gynnwys gofalu am y casgliad, mynediad ato ac ymgysylltu ag ef ond nid yw'n debygol o gynnwys ariannu swyddi sy'n bod eisoes na gweithgareddau cyfredol yn y tymor byr. Gall ein pwyllgor moeseg roi rhagor o help i chi wneud penderfyniadau moesegol.

### Pethau i'w hystyried:

— Beth yw manteision y gwerthiant hwn i'r cyhoedd?

— Beth yw manteision y gwerthiant hwn i'r amgueddfa?

— A ofynnir pris cyfredol y farchnad neu'r pris prynu gwreiddiol am yr eitem?

— Pa mor debygol ydyw y bydd amgueddfa arall yn gallu prynu'r eitem?

— Pa gamau a gymerir os na all unrhyw amgueddfa brynu'r eitem? (e.e. cynnig yr eitem am bris gostyngol neu fel benthyciad hirdymor).

— Sut fydd elw'r gwerthiant yn cael ei ddefnyddio?

— Sut mae'r cyhoedd yn debygol o ymateb i'r penderfyniad?

### Camau i'w cymryd:

— meddwl, os oes modd, am sefydliadau a allai fod â diddordeb a chysylltu'n uniongyrchol â nhw

— os na ellir meddwl am unrhyw amgueddfa, rhoi gwybod i'r sector amgueddfeydd a grwpiau perthnasol eraill bod yr eitemau ar gael

— ceisio cyngor arbenigol annibynnol ar werth ariannol yr eitem ac argymell bod unrhyw brynwr yn gwneud yr un peth

— sicrhau bod y teitl cyfreithiol yn cael ei drosglwyddo i'r derbynnydd

— sicrhau tryloywder a chyfathrebu am y broses

— dogfennu'r eitem a'r broses.

### Beth i'w wneud os nad yw'r dull hwn yn llwyddo:

— ystyried a allai dull arall o drosglwyddo, ailddefnyddio neu waredu fod yn addas

— ystyried cymryd camau gwahanol (fel cynnig trosglwyddo neu werthu'r eitem i sefydliad y tu allan i'r parth cyhoeddus neu un sy'n cynnig mynediad rheolaidd i'r cyhoedd)

— ailedrych ar y penderfyniad i dynnu'r eitem o'r casgliad.

## Gwerthu casgliadau a'r Cod Moeseg

Mae'r Cod Moeseg yn caniatáu gwerthu eitemau o gasgliadau ond mae adran 2.9 yn cynnig eglurder ynghylch achosion lle mae'r eitem yn cael ei thynnu o'r casgliad at ddibenion cynhyrchu incwm:

*2.9 Cydnabod yr egwyddor na ddylid fel arfer ystyried casgliadau fel asedau ariannol, a bod perygl y gall gwaredu eitemau er budd ariannol effeithio ar hyder y cyhoedd mewn amgueddfeydd. Dylid gwrthod cael gwared ag eitem am resymau ariannol yn bennaf, oni bai bod hynny'n debygol o gynyddu'n sylweddol y budd cyhoeddus a geir o weddill y casgliad dros yr hirdymor. Bydd hyn yn cynnwys dangos prawf o'r canlynol:*

— *bod yr eitem dan ystyriaeth y tu hwnt i gasgliad craidd yr amgueddfa fel y'i diffinnir yn y Polisi Datblygu Casgliadau*

— *bod ymgynghori helaeth â chyrff y sector a'r cyhoedd wedi'i gynnal a'i ystyried*

— *nad yw'n digwydd i gynhyrchu refeniw tymor byr (er enghraifft, diffyg yn y gyllideb)*

— *mai dim ond pan ddaw hi i'r pen y bydd yn digwydd, ar ôl archwilio pob ffynhonnell ariannol arall yn drwyadl.*

Os bydd arnoch angen cyngor, darllenwch Joint statement on unethical sale from museum collections

→ A
**Cymorth wrth wneud penderfyniadau anodd**

## Trosglwyddo i amgueddfeydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig (ac eithrio adfer/dychwelyd i darddiad)

Ar ôl gwneud gwaith ymchwil fel rhan o adolygiad o gasgliadau, efallai y penderfynwch waredu eitem trwy ei hanfon i amgueddfa y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Gellir gwneud hyn os yw er budd yr amgueddfa ac er lles ehangach y cyhoedd. Oni bai mai dyma'r peth gorau er budd y cyhoedd, ei fod at ddibenion ymchwil dilys neu fod amgylchiadau esgusodol, fel trosglwyddo ar sail foesegol (er enghraifft, dychwelyd i'w tarddiad), dylid cynnig eitemau i sefydliadau/cyrff yn y parth cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig cyn gwneud hyn.

Yn achos amgueddfeydd yng Ngogledd Iwerddon, gellir ymestyn hyn i gynnwys Gweriniaeth Iwerddon. Gall fod goblygiadau cyfreithiol i waredu i amgueddfa y tu allan i'r Deyrnas Unedig (e.e. o dan gyfraith elusennau), felly dylech geisio cyngor cyfreithiol cyn mynd ati i drosglwyddo fel hyn. O dan amgylchiadau eithriadol, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ohirio allforio ac, os felly, dylech geisio cyngor arbenigol fel canllawiau Cyngor Celfyddydau Lloegr ar Drwyddedu Allforion ac adroddiad y Reviewing Committee on the Export of Works of Art and Objects of Cultural Interest 2021-22.

## Gwerthu y tu allan i'r parth cyhoeddus

Dim ond ar ôl i chi gadarnhau mewn ffordd dryloyw na all unrhyw sefydliad/gorff yn y parth cyhoeddus gymryd yr eitem y dylid gwerthu y tu allan i'r parth cyhoeddus. Yn gyntaf, dylech hysbysebu ar wasanaeth rhestru Find an Object ar y we bod yr eitem ar gael. Os gwnewch hyn gydag eitemau y canfuwyd nad oes iddynt lawer o werth diwylliannol nac ariannol, ychydig iawn o risg ddylai ei achosi i enw da amgueddfeydd unigol ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn y sector yn gyffredinol. Yn achos eitemau sy'n werthfawr o safbwynt diwylliannol neu ariannol, dylid ceisio cymorth ac arweiniad ychwanegol gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd ac ymgynghori â chyrff yn y sector cyn gwerthu y tu allan i'r parth cyhoeddus.

→ Gweler **Penderfynu tynnu eitem o'r casgliad**

Rhaid i unrhyw incwm a gynhyrchir o werthu eitemau gael ei fuddsoddi er budd hirdymor yr amgueddfa a'i chasgliadau. Gall hyn gynnwys gofalu am y casgliad, mynediad ato ac ymgysylltu ag ef ond nid yw'n debygol o gynnwys ariannu swyddi sy'n bod eisoes na gweithgareddau cyfredol yn y tymor byr. Gall ein pwyllgor moeseg roi rhagor o help i chi wneud penderfyniadau moesegol.

### Pethau i'w hystyried:

- Ydi perchnogaeth yr eitem yn sicr?
- A ellir disgrifio hanes tarddiad (provenance) yr eitem yn gywir?
- Beth yw manteision y gwerthiant hwn i'r cyhoedd?
- Beth yw manteision y gwerthiant hwn i'r amgueddfa?
- A ellir gofalu'n ddigonol am yr eitem?
- A fydd y cyhoedd yn cael mynediad at yr eitem o gwbl?
- A roddir amodau ar unrhyw werthiant?
- Ar beth fydd yr elw'n cael ei wario?
- Sut mae'r cyhoedd yn debygol o ymateb i'r penderfyniad?

### Camau i'w cymryd:

- dewis sefydliadau neu unigolion posibl a'u hysbysu
- dewis dull gwerthu
- sicrhau bod y teitl cyfreithiol yn cael ei drosglwyddo i'r derbynnydd newydd
- sicrhau tryloywder a chyfathrebu am y broses
- dogfennu'r eitem a'r broses.

### Beth i'w wneud os nad yw'r dull hwn yn llwyddo:

- ystyried a allai dull arall o drosglwyddo, ailddefnyddio neu waredu fod yn addas
- ailedrych ar y penderfyniad i dynnu'r eitem o'r casgliad.

## Dulliau gwerthu

Wrth benderfynu ar ddull gwerthu mae'n bwysig ystyried yr angen i fod yn agored ac yn dryloyw (gweler yr adran **Cyfathrebu am y broses**) a'r angen i osgoi gwrthdaro buddiannau. Er mwyn sicrhau tryloywder, rydym yn argymell bod amgueddfeydd, lle bo'n briodol, yn gwerthu eitemau mewn ocsiwn cyhoeddus.

Ni chaniateir i staff amgueddfa nac aelodau o'r corff llywodraethu brynu eitemau y mae eu hamgueddfa'n eu gwaredu. Nid yw'n arfer da i staff amgueddfeydd gaffael deunydd o amgueddfeydd eraill chwaith.

1. Gwerthu'n uniongyrchol i amgueddfa/sefydliad cyhoeddus. Dylech geisio prisiad arbenigol annibynnol. Rydym yn argymell bod y prynwyr yn cael eu prisiad annibynnol eu hunain hefyd. Efallai y penderfynwch werthu am bris is na gwerth y farchnad er mwyn sicrhau bod amgueddfa arall yn gallu caffael yr eitem(au).

2. Gwerthu ar y farchnad agored.
Os nad yw eitemau'n cael eu gwerthu'n uniongyrchol i gorff yn y parth cyhoeddus, rydym yn argymell eu bod yn cael eu gwerthu mewn ocsiwn cyhoeddus. Mae hyn yn sicrhau bod y sefyllfa'n agored ac yn dryloyw. Efallai yr hoffech feddwl hefyd am amseriad yr ocsiwn, ei leoliad a'r dewis o arwerthwr. Gellir ystyried safleoedd ocsiynau ar-lein fel eBay fel rhan o'r broses hon.

3. Gwerthu i unigolyn preifat. Mae'n bwysig eich bod yn ystyried yr angen i fod yn agored ac yn dryloyw wrth werthu mewn unrhyw ffordd ac felly efallai na fydd y dull hwn yn briodol.

## Ailddefnyddio/ailgylchu

Os na ellir dod o hyd i gartref newydd i eitem ac nad yw dulliau eraill yn briodol, gallech ystyried ailddefnyddio, ailbwrpasu neu ailgylchu eitem trwy ei gwerthu fel sgrap neu ei rhoi'n rhodd i elusen. Mae hwn yn opsiwn llawer gwell na'i ddinistrio a dylai amgueddfeydd ystyried, hyd y bo modd, effaith amgylcheddol gwaredu eitemau trwy eu taflu i ffwrdd.

### Pethau i'w hystyried:

- Sut y bydd gweithredu fel hyn o fudd i'r cyhoedd?
- Sut y bydd gweithredu fel hyn o fudd i'r amgueddfa?
- A ddaw budd ariannol o'r eitem trwy weithredu fel hyn?
- Sut mae'r cyhoedd yn debygol o ymateb i'r penderfyniad?
- A oes rhywbeth a allai atal yr eitem rhag cael ei hailddefnyddio/hailgylchu yn ddiogel? (Er enghraifft, triniaethau cadwraeth a gafodd o'r blaen).

### Camau i'w cymryd:

- dewis y dull o ailgylchu; ceisio cyngor arbenigol os bydd angen
- sicrhau nad yw'r dull o ailgylchu'n peryglu staff na'r cyhoedd
- sicrhau bod y teitl cyfreithiol yn cael ei drosglwyddo i'r corff sy'n derbyn
- sicrhau tryloywder a chyfathrebu am y broses
- dogfennu'r eitem a'r broses.

→ ASTUDIAETH ACHOS

## Amgueddfeydd Swydd Gaerwrangon yn ailddefnyddio carafan wedi'i dad-dderbynodi

Mae Amgueddfa Swydd Gaerwrangon yn gofalu am gasgliad o garafannau Romani sydd o arwyddocâd cenedlaethol, fel rhan o'u Casgliad Trafnidiaeth. Bymtheng mlynedd yn ôl gwnaed penderfyniad i gaffael carafán deithiol, neu vardo, o'r 1920au, oedd mewn cyflwr drwg iawn. Yn ôl y cyngor curadurol a gafwyd ar y pryd, nid oedd y garafán yn cyfrannu at genhadaeth yr amgueddfa i ehangu a gwella'u casgliad o vardos ac roedd, yn ei chyflwr ar y pryd, yn rhy beryglus i'w harddangos oherwydd bod gwydr wedi torri, plwm yn dirywio a'r siasi'n ansefydlog. Fodd bynnag, gwnaed eithriad ohoni oherwydd ei harwyddocâd yn dangos datblygiad carafannau hamdden dros amser. Aed ati i gaffael y garafán, o'r enw "Angela", a'i storio i aros am gael ei thrin.

Pan ddechreuwyd ar y gwaith cadwraeth, roedd yn amlwg iawn bod cryn dipyn o waith adnewyddu wedi'i wneud ar y garafán yn y gorffennol, gan adael ychydig iawn o'r cerbyd gwreiddiol ar ôl. Roedd y rhannau gwreiddiol a oedd ar ôl mewn cyflwr mor wael fel y byddai angen gosod rhai newydd yn eu lle i wneud y cerbyd yn ddiogel. Felly, gwnaed y penderfyniad i ddad-dderbynodi'r garafán ond i gadw Angela yn yr amgueddfa fel ased ymarferol.

Mae Angela wrthi'n cael ei hadnewyddu'n llwyr ar hyn o bryd fel y gellir ei defnyddio'n ddiogel i ymwelwyr ei gweld, ac ar gyfer sesiynau dysgu, dehongli, a lles yn yr amgueddfa. Mae bwriad hefyd i ddefnyddio'r garafán ar gyfer glampio ar dir yr amgueddfa gan gynnig potensial ar gyfer creu incwm.

Ar ôl dad-dderbynodi Angela, roedd gan yr amgueddfa le i gaffael Vardo gwreiddiol o Gaint ac ehangu un o'i chasgliadau mwyaf arwyddocaol.



© Museums Worcestershire

# Dinistrio

Weithiau, gall fod angen dinistrio eitemau (e.e. oherwydd eu bod wedi'u difrodi gymaint fel na ellir eu defnyddio eto, neu eu bod yn peryglu iechyd a diogelwch unigolion neu'r casgliad).

### Pethau i'w hystyried:

- Iechyd a diogelwch: a oes gan yr amgueddfa ddigon o arbenigedd i ddinistrio'r eitem yn ddiogel neu a oes asiantaeth arall mewn sefyllfa well i wneud hynny?
- Beth fydd effaith amgylcheddol dinistrio a gwaredu gwahanol rannau'r eitem?
- Sut mae'r cyhoedd yn debygol o ymateb i'r penderfyniad?

### Camau i'w cymryd:

- dewis y dull o ddinistrio; ceisio cyngor arbenigol os oes angen (er enghraifft, gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE))
- sicrhau nad yw'r dull o ddinistrio'n peryglu staff na'r cyhoedd
- sicrhau bod yr eitem wir yn cael ei dinistrio
- ailddefnyddio/ailgylchu cynifer ag y bo modd o rannau'r eitem
- dogfennu'r eitem a'r broses.

## Dadansoddiad dinistriol

Efallai y gellid cynnal dadansoddiad dinistriol o rai o eitemau'r casgliad, er enghraifft sbesimenau o fyd natur. Peth prin yw i'r broses hon ddinistrio'r gwrthrych cyfan a'r data cysylltiedig ac felly cyfrifir bod y broses y tu allan i'r canllawiau hyn. Dylid gwneud penderfyniadau ynghylch cynnal dadansoddiad dinistriol yn unol â'n Cod Moeseg.

# Cofnodi'r broses

Rhaid i chi ddogfennu pob agwedd ar y broses i safon Spectrum.

Cewch ragor o fanylion am hyn yn yr adran Deaccessioning and Disposal ar wefan yr Ymddiriedolaeth Casgliadau.

# Cyfathrebu am y Broses

Fel sy'n wir am bob agwedd ar waith amgueddfeydd, mae'n bwysig eich bod yn dryloyw ac yn agored gyda'r cyhoedd, cydweithwyr a rhanddeiliaid pan fyddwch yn dad-dderbynodi casgliadau. Dylech ystyried sut y gallwch ddefnyddio'ch sianeli cyfathrebu i ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch y broses.

Bydd cyfathrebu da, rhagweithiol yn cynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r rhan hon o waith amgueddfeydd. Dylech fynd ati mewn ffordd agored a gonest i esbonio cyd-destun a budd posibl y camau y bwriadwch eu cymryd. Dylech ystyried yn ofalus pa fath o iaith i'w defnyddio gan osgoi jargon a allai achosi camddealltwriaeth ynghylch canlyniad terfynol y broses (er enghraifft, mae termau fel "gwaredu" ar eu pen eu hunain yn aml yn cael eu camddeall). Mae'n bwysig bod polisi cyffredinol yr amgueddfa ar ddad-dderbynodi ar gael i'r cyhoedd ac yna gellir cyfeirio ato wrth esbonio achosion unigol.

Bydd lefel, dull ac amseru'r cyfathrebu yn dibynnu ar natur yr eitemau a waredir. Dylid sicrhau bod y gweithlu cyfan, yn cynnwys y rhai nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r broses ddad-dderbynodi, yn deall polisi a phroses eich amgueddfa, ac – mewn achosion unigol sy'n cael llawer o sylw – dylent ddeall hefyd y rhesymau dros unrhyw benderfyniadau ac unrhyw gamau y bwriedir eu cymryd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y broses yn cael ei chyflwyno'n gywir i bobl y tu allan i'r amgueddfa. Yn ogystal, dylech ystyried ffyrdd o gyfleu gwybodaeth i randdeiliaid allweddol fel Cyfeillion yr amgueddfa ac ymwelwyr rheolaidd. Gallai hyn gynnwys cyhoeddi gwybodaeth ar wefannau ac mewn cylchlythyrau.

Os bydd eich proses ddad-dderbynodi yn sicrhau canlyniad arbennig o ffafriol i'r cyhoedd yn ehangach, efallai yr hoffech ystyried ffyrdd o roi mwy o gyhoeddusrwydd i'r gwaith, er enghraifft trwy dynnu sylw'r Museums Journal ato er mwyn i eraill yn y sector allu dysgu o'r gwaith.



Arddangosfa The Right Stuff, © Bridport Museum Trust

## Ble i fynd am gymorth

- → Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr
- → Comisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon
- → Consortiwm Rhwydweithiau Arbenigwyr Pwnc
- → Cyngor Rhyngwladol Amgueddfeydd (ICOM)
- → Cymdeithas yr Amgueddfeydd
  - → Cymraeg
  - → Saesneg
- → Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban
- → (Y) Sefydliad Cadwraeth (ICON)
- → (Yr) Ymddiriedolaeth Casgliadau

## Adnoddau ychwanegol

- → Active Collections
- → UCL Collections Review Toolkit
- → Proses a thempled ar gyfer pennu arwyddocâd. Beth yw eu diben? gan CyMAL
  - → Cymraeg
  - → Saesneg
- → Pecyn Cymorth Asesu Arwyddocâd Casgliadau ar gyfer Amgueddfeydd Cymru
  - → Cymraeg
  - → Saesneg
- → Museums Association Museums for Climate Justice Campaign
- → Canllawiau Cymdeithas yr Amgueddfeydd ar Ddad-drefedigaethu
  - → Cymraeg
  - → Saesneg

# Adnoddau

Llun y clawr blaen:
Staff y Grŵp Amgueddfeydd Gwyddoniaeth yn asesu casgliadau.
©Science Museum Group

Museums Association

Museums Association
42 Clerkenwell Close
London EC1R 0AZ
T: 020 7566 7800
www.museumsassociation.org